



ArtWorks
Cymru

Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol: Dirnadaeth ymarferwyr
yng Nghymru o werth ac effaith *Egwyddorion Ansawdd Artworks
Cymru* ar gyfer ymarfer a datblygiad proffesiynol

Mawrth 2021

Hoffem ddiolch i'r holl ymarferwyr ar draws Cymru a roddodd eu hamser a'u hymdrech i lenwi'r arolwg ac am roi ymatebion mor fanwl ac ystyriol.



Queen Margaret University
EDINBURGH

Ymchwiliwyd a chynhyrchwyd gan Rachel Blanche,
Uwch Ddarlithydd mewn Rheoli Celfyddydau a Pholisi Diwylliannol,
Prifysgol y Frenhines Margaret

Mawrth 2021

[Am yr adroddiad hwn](#)

Casglwyd y deunydd yn y papur hwn yn ystod Mehefin-Awst 2020 trwy arolwg ar-lein o ymarferwyr yng Nghymru sy'n defnyddio [pecyn offer a fframwaith Egwyddorion Ansawdd Artworks Cymru](#). Dychwelodd cyfanswm o 18 o ymarferwyr atebion manwl i'r arolwg, yn cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn ogystal ag ymarferwyr proffesiynol a llawrydd a myfyrwyr (a restrir ar ddiwedd yr adroddiad hwn). Roedd yr arolwg yn ceisio casglu manylion am sut y mae ymarferwyr wedi defnyddio'r dull ansawdd sy'n ganolog i'r pecyn offer, a ble a sut y maent yn gweld gwerth ynddo ar gyfer eu hymarfer.

Cynhaliwyd yr arolwg yng Nghymru fel rhan o astudiaeth fwy yn cynnwys yr Alban a Phortiwgal lle mae ymarferwyr mewn celfyddydau cyfranogol wedi mabwysiadu dull ansawdd tebyg i'r *Egwyddorion Ansawdd* yng Nghymru. Am adroddiad llawn yn rhoi manylion y canfyddiadau ar draws y tair gwlad, gweler: *A Holistic Approach for Quality In Participatory Arts: Impacts On Practice Experienced By Artists In Scotland, Wales And Portugal*, [QMU Working Paper 2020/3](#), cyhoeddwyd yn Rhagfyr 2020 gan Rachel Blanche.

Mae'r adroddiad yr ydych ar fin ei ddarllen yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau o'r sector yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar werth ac effaith y pecyn offer ar:

- Ymarfer Sefydliadol
- Hyfforddiant a Datblygu yn y sector (gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer artistiaid sy'n dod i'r amlwg)
- Gwaith Ymgysylltu Cymunedol

1/ Profiadau pw ydyn ni'n eu cofnodi?

O'r 18 o ymatebwyr a roddodd y wybodaeth a gofnodir yma:


Roedd eu hanner (naw) yn rhoi adroddiadau o sefydliadau yn y sector, gan gynnwys:

Arts Active Trust • Theatr Borough y Fenni • Head4Arts
Impelo • Llenyddiaeth Cymru • Mess up the Mess Theatre
Company • Operasonic • Canolfan Mileniwm Cymru

Roedd pump yn gweithio yn eu practis llawrydd eu hunain (y mae tri ohonynt hefyd yn darlithio ar y celfyddydau cyfranogol).

Roedd tri yn astudio ar adeg yr arolwg yng Ngholeg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru (RWCMD) a Phrifysgol De Cymru (USW).

Ymarferwyr yn yr astudiaeth hon yn dynodi eu gwaith:



■ NIFER o ymatebwyr

Rhyngddynt cofnododd y 18 ymatebwr 65 o ffyrdd oedd yn gorgyffwrdd o ddiffinio eu hymarfer eu hunain, y rhai mwyaf amlwg oedd Ymarfer Cyfranogol, Dysgu Creadigol, ac Ymarfer ag Ymgysylltiad Cymdeithasol. Mae'r termau eraill a nodwyd gan yr


ymatebwyr yn cynnwys: Ymarferwr Celfyddydau dros Iechyd, Addysgwyr Cerddoriaeth Gynhwysol, Therapydd Cerdd, Artist Cymunedol ac Artist Ieuentid.



Mae'r map hwn yn dangos lleoliad yr ymatebwyr i'r arolwg ar draws Cymru. Roedd hanner (naw) yr ymatebwyr yn ardal cod post Caerdydd (CF), gyda rhai eraill yn ardaloedd Abertawe (SA) a Chasnewydd (NP) yn ogystal â rhannau eraill o'r wlad (codau post LD, LL a SY).

Mae mwyafrif yr ymarferwyr a ymatebodd yn brofiadol iawn mewn ymarfer cyfranogol: mae dau draean wedi gwneud eu gwaith ers 10 mlynedd neu fwy.

Cofnodir canfyddiadau hefyd gan ymarferwyr sy'n newydd i waith cyfranogol: Mae 1 o bob 6 o'r ymatebwyr wedi gweithio yn y sector am lai na 2 flynedd.



Mae'r partneriaid allanol y mae ymatebwyr yn gweithio gyda nhw yn cynnwys:



■ Dewiswyd yn ôl NIFER yr ymatebwyr

2/ Ymwybyddiaeth o'r Pecyn Offer a'r Defnydd ohono


Roedd dau allan o bob pump (saith) o'r ymarferwyr a ymatebodd wedi cael eu cyflwyno i'r pecyn offer trwy sesiwn hyfforddi a drefnwyd ac a ddarparwyd gan ArtWorks Cymru ac roedd tri arall wedi bod yn rhan o ddatblygu'r fframwaith a phecyn offer ar y dechrau trwy arweiniad ArtWorks Cymru.

Roedd pedwar ymatebwr arall wedi gweld yr *Egwyddorion Ansawdd* a'r offer trwy gydweithiwr neu gymheiriaid sy'n ymarferwr, a dechreuodd pedwar ei ddefnyddio ar ôl cael eu cyflwyno trwy gwrs prifysgol.

Ar ôl cael gwybod am y pecyn offer mae pobl sy'n gweithio yn y sector wedi tueddu i'w ddefnyddio nifer o weithiau

Ar adeg yr arolwg, roedd traean o'r ymatebwyr wedi cofnodi eu bod wedi defnyddio'r pecyn offer *fwy na deg gwaith* yn eu hymarfer gyda'r gweddill o bawb a holwyd wedi ei ddefnyddio 2-9 gwaith. Nid oedd unrhyw un wedi ei ddefnyddio unwaith yn unig.

"Faint o weithiau ydych chi wedi defnyddio'r map, offer neu adnoddau Egwyddorion Ansawdd yn eich gwaith?"



3/ Effeithiau ar Ymarfer Sefydliadol

Defnyddiwyd yr offer mewn nifer o ffyrdd yn fewnol ac allanol yr oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi gwella eu hymarfer.

Mae'r ymarferwyr a ymatebodd i gyd wedi defnyddio'r *Egwyddorion Ansawdd* yn fewnol yn eu tîm neu sefydliad, yn benodol:

- i helpu i Werthuso (16 o'r 18 ymatebwr)
- ar gyfer trafodaethau am Ansawdd (15 o'r 18)
- ar gyfer Cynllunio a Dylunio prosiect (15)
- i Ystyried (14)

Ond nid oedd yr ymatebwyr i gyd wedi defnyddio'r *Egwyddorion Ansawdd* yn allanol ar adeg yr arolwg.

Mae bron i dri chwarter yr ymatebwyr wedi defnyddio'r *Egwyddorion Ansawdd* yn allanol i gydweithio neu i arwain trafodaeth gyda:

- Phartneriaid cyflawni Prosiect (9 o 13 oedd wedi eu defnyddio yn allanol)
- Cyfranogwyr at Brosiect (6)
- Comisiynwyr Prosiect (3)

I saith o'r ymatebwyr, roedd defnyddio'r *Egwyddorion Ansawdd* wedi newid y ffordd y maent yn ymgysylltu â phartneriaid, a dywedodd 8 ymarferwr bod yr offer wedi eu helpu i 'archwilio a chytuno ar natur prosiect cydweithio newydd'. Fe wnaethant gadarnhau ei fod yn benodol 'yn creu strwythur ar gyfer trafod ansawdd gyda chomisiynwyr prosiect

neu gyllidwyr' (7 ymatebwr), ac yn 'helpu i gael partneriaid ar yr un dudalen gyda'r un weledigaeth ac iaith' (9).

Dywedodd wyth o'r ymatebwyr bod defnyddio'r pecyn offer wedi newid y ffordd y maent yn gweithio gyda chyfranogwyr yn awr.

Mae'n cryfhau llais y cyfranogwyr yn y cyfnod cynllunio.

Weithiau rydym yn cael ein comisiynu i gyflawni prosiectau lle mae cynlluniau wedi cael eu datblygu cyn i ni fod yn rhan ohonynt. Rydym yn awr yn fwy ymrwymedig i wneud ymdrech i geisio sicrhau bod gan y cyfranogwyr fwy o lais wrth ddylunio prosiect.

Nodir bod gwerth i'r offer yn y ffordd y maent yn cadarnhau arferion sefydliadol mewnol, sefydlu dealltwriaeth ar y cyd rhwng cydweithwyr a chytuno ar y safonau ansawdd a ddymunir.

Yn benodol amlygodd defnyddwyr eu defnydd ar gyfer:

- **Cyfathrebu o fewn timau**


Mae'r Egwyddorion Ansawdd wedi bod yn bwysig wrth godi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl staff o ofynion cynllunio prosiect da, yn arbennig y rhai nad ydynt fel arfer yn ymwneud â chynllunio prosiect.

- **Cynefino staff newydd**

[Maent] yn cael eu defnyddio yn gadarnhaol fel adnoddau hyfforddi ar gyfer staff ac artistiaid newydd.

Amlygodd un ymatebwr gyfle pwysig i ArtWorks Cymru hyfforddi "sefydliadau cyfan" i ddefnyddio'r *Egwyddorion Ansawdd* a'r offer, a thrwy hynny alluogi "mwy o ganlyniadau ac effeithiau" trwy i'r egwyddorion gael eu hymwreiddio yn ddyfnach yn y sefydliadau. Nododd yr ymatebwr mai un her wrth weithredu'r egwyddorion ansawdd yw sefydlu "Patrwm o'u defnyddio". Adleisir hyn gan ail ymatebwr: "[mae'n her] dim ond cofio defnyddio'r offer, gan ei bod yn ffordd newydd o weithio".

Yn gyffredinol mae'r holl ymatebwyr yn cofnodi rhyw ffurf o effaith ar eu hymarfer o weithredu'r *Egwyddorion Ansawdd*, boed yn 'effaith cynnar neu gychwynnol' (6 ymatebwr), 'effaith gweladwy a defnyddiol' (11), neu 'effaith mawr a thrawsnewidiol' (1).



Dywedodd ymarferwyr oedd yn defnyddio'r pecyn offer ei fod wedi newid sut y maent yn awr yn gwerthuso ansawdd eu gwaith (14 o ymatebwyr); yn ystyried yn fewnol (14), yn deall ansawdd eu gwaith (13) ac yn rhoi adroddiadau allanol ar eu gwaith neu yn eiriol drosto (7). Cadarnhaodd pymtheg o'r ymatebwyr ei fod yn eu helpu i sylweddoli pan fydd ymarfer da yn bodoli a'i ddathlu.

Defnyddiwyd yr Egwyddorion Ansawdd yn bennaf i amlygu pwysigrwydd o fewn y sefydliad o gynllunio prosiect o ansawdd a gweithio mewn

partneriaeth, ond hefyd maent wedi cael eu rhannu gyda'r holl artistiaid cyfranogol yr ydym wedi gweithio gyda nhw fel canllaw ar arfer gorau.

Argymhellodd tri chwarter yr ymatebwyr yr Egwyddorion Ansawdd a'r adnoddau i eraill y maent yn gweithio gyda nhw, yn benodol:

- Partneriaid prosiect gan gynnwys partneriaid heb fod yn gelfyddydol (h.y. cymdeithasau tai, timau datblygu cymunedol)
- Cydweithwyr a sefydliadau celfyddydol eraill, yn lleol a rhyngwladol
- Staff newydd
- Artistiaid sy'n cychwyn ar ymarfer cyfranogol
- Gwirfoddolwyr

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr sut y maent yn meddwl y mae'r *Egwyddorion Ansawdd* wedi gweithio yn dda iddyn nhw, amlygodd yr ymatebwyr pa mor drosglwyddadwy, cynhwysol a hyblyg yr oedden nhw.

Rwy'n meddwl bod y categorïau yn addas iawn ar gyfer amrywiaeth o brosiectau creadigol a gellir eu trosglwyddo yn rhwydd. Oherwydd hynny roedden nhw'n gweithio'n dda iawn i mi. Roeddwn yn gweld y taflenni gwaith yn wych ar gyfer cynllunio. Rwy'n meddwl bod yr egwyddorion yn gynhwysol ac yn gwneud i chi feddwl / cynllunio yn feirniadol sydd yn bwysig iawn o ran y cyflwyniad cyffredinol a'i weithredu.

Maent yn fanwl gywir a chynhwysfawr ond nid ydyn nhw'n or-gaeth mewn blychau ticio. Maen nhw'n agored ac yn hyrwyddo ystyried a sgwrs nid cydymffurfio â system neu ddull penodol o ymarfer.

4/ Gwerth yr offer ar gyfer hyfforddi a datblygu'r sector

Amlygodd defnyddwyr y pecyn offer *Egwyddorion Ansawdd* ei werth fel llwyfan i gadarnhau arfer da yn y sector trwy ddealltwriaeth ar y cyd o'r hyn sy'n cynrychioli ansawdd mewn celfyddydau cyfranogol. Mae'r iaith gyffredin a'r cysyniadoli a gynigir gan y pecyn offer yn ganolog i hyn.

Mae llawer o ymatebwyr yn gweld y pecyn offer fel llwyfan dderbyniol iawn i hyfforddi staff newydd a datblygu artistiaid ar bob cam yn eu gyrfaedd.

Cofnododd yr ymatebwyr profiadol yn y set ddata fanteision y pecyn offer o ran eu gwaith ystyried eu hunain ac fel sail i'w hymarfer eu hunain, ond hefyd fel adnodd ar gyfer cefnogi ymarferwyr sy'n dod i'r amlwg.

Bu'n offeryn gwych i gyfeirio artistiaid sy'n newydd i ymarfer cyfranogol tuag ato, i'w helpu i gynllunio prosiectau'n llwyddiannus ac ystyried eu cynnydd eu hunain.

Mae'r egwyddorion yn helpu fel dull o atgoffa (rhestr wirio) i ganolbwyntio a chynllunio pob prosiect i'r safon uchaf. Maent yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer artistiaid cyfranogol newydd i weithredu fel templed ar gyfer cynllunio prosiect llwyddiannus.

Mae'n rhoi sicrwydd a chyd-destun i ymarfer creadigol a all ymddangos yn heriol neu nad yw yn unol â rhagdybiaethau traddodiadol am greu gwaith creadigol, yn enwedig perfformio.

[Mae wedi cael] effaith gweladwy a defnyddiol yn fy ymarfer fy hun ac fel offeryn i'm myfyrwyr mae'n cynnig dull hawdd ei ddefnyddio ac wedi ei 'ddilysu' i ystyried cwestiynau yn ymwneud ag ansawdd. Mae'n

berthnasol iawn i ymarfer ac mae'n 'synhwyrol' ac yn rhywbeth y gellid ymdopi ag o.

Mae wedi rhoi sicrwydd i mi bod fy ymarfer wedi ei ystyried yn dda, yn rhoi pwyslais ar gyfranogwyr ac yn ymatebol. Mae hyn o gymorth mawr wrth weithio'n annibynnol ar gynlluniau tymor hir.

[Mae'r Egwyddorion Ansawdd yn] offeryn ac adnodd 'i droi ato' i unrhyw artist.

Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi eu bod wedi eu harfogi yn broffesiynol gydag offer, iaith ac adnoddau ymarferol sydd wedi eu cymeradwyo, yn arbennig wrth ryngweithio gyda phartneriaid allanol neu nad ydynt yn gelfyddydol.

Rwy'n meddwl ei fod yn gwneud ymarfer cyfranogol yn fwy diriaethol a phroffesiynol - mae gennym fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i helpu i siapiau ein gwaith. Mwyaf yn y byd o bobl sy'n ei ddefnyddio, mwyaf cydnabyddedig y bydd yn mynd.

Fel arfer rwy'n dod â chopiau o'r gwaith papur i'r cyfarfodydd cynnar gyda phartneriaid prosiect newydd. Mae'n helpu i nodi'r cyd-destun ar gyfer yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud.

Mae'r egwyddorion yn ffres yn fy meddwl wrth gael cynnig gwaith, fel rhestr wirio o bethau sydd angen eu gwneud a chwestiynau i'w gofyn cyn dechrau.

Fe fyddwn yn dweud o ganlyniad i ddysgu'r egwyddorion i'n myfyrwyr fel rhan o Ymarfer Proffesiynol mae hefyd wedi proffesiynoli fy ymarfer llawrydd, yn arbennig fy ngwaith cynllunio ar gyfer gwerthuso.

Yn arwyddocaol, cofnododd chwech o'r ymatebwyr bod cael yr *Egwyddorion Ansawdd* a'r offer cysylltiedig wedi 'eu helpu i deimlo

wedi eu grymuso i ymdrin ag ansawdd gyda phartneriaid, comisiynwyr a chyllidwyr' gan ddweud:

[Effaith mawr a thrawsnewidiol oedd cael] fframwaith diriaethol i drafod ansawdd gyda rhanddeiliaid gydag iaith a rennir. Mae'n fy ngalluogi i eiriol dros y gwaith yn fwy hyderus ac effeithiol.

Mae wedi pwysleisio a rhoi pwysigrwydd i'r gwaith ymarfer a chynllunio angenrheidiol cyn rhoi prosiect yn ei le (hyd yn oed os mai dim ond ychydig o weithdai yw'r prosiect). Mae hefyd wedi rhoi'r hyder i mi ofyn am gael fy nhalu am amser paratoi yn fy nghytundebau.

Croesawodd yr ymatebwyr hefyd y cyfleoedd a roddir gan yr offer Egwyddorion Ansawdd i gychwyn deialog sectoraidd ar arfer da:

Mae cyfleoedd hyfforddi hefyd yn cynnig ffurf ar gyfnwedd a thrafod yn y sector ac i ddysgu am arferion a phrosiectau eraill.

[Fel] diffiniad o ansawdd, [mae'n rhoi] templed ar gyfer arfer da wrth fynd at a chynllunio gwaith cyfranogol.

Mae'r broses ymholi y mae'r [Egwyddorion] yn eich arwain trwyddi yn gwneud trafod Ansawdd yn flaenoriaeth. Mae'n ddigon hyblyg i dderbyn ystod eang o arferion, disgyblaethau a dulliau ond mae wedi ei ganoli ddigon i sicrhau bod agweddau allweddol o ansawdd yn cael eu hystyried yn ofalus.

O ran pa ychwanegiadau y byddai'r ymarferwyr yn eu croesawu at adnoddau ansawdd ArtWorks Cymru, roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar barhau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr, ac enghreifftiau o arfer da wrth ddefnyddio pecynnau offer a chyflawni gwaith celfyddydol cyfranogol.

Mae'r offer wedi bod yn ddefnyddiol i ymarferwyr wrth addasu eu hymarfer yn ystod yr argyfwng Covid.

Nododd rhai ymarferwyr y model ystyriol ar gyfer dylunio gwaith o gwmpas egwyddorion ansawdd diffiniedig yn ystod yr argyfwng Covid i ystyried sut y mae ansawdd yn edrych ac yn teimlo mewn amgylchiadau sydd wedi newid yn radical, gan ddangos gwerth yr *Egwyddorion Ansawdd* fel offeryn datblygu ar gyfer addasu ymarfer ar gyfer *unrhyw* gyd-destun.

Ar hyn o bryd rwyf yn defnyddio'r [pecyn offer] i greu cwestiynau am drosi peth o'm gwaith llawrydd ar Zoom. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn fel fframwaith ar gyfer ystyried materion fel cydraddoldeb mynediad, sut y mae'r cyfrwng yn herio'r ymarfer ac ati gyda phwyslais ar ansawdd. Mae hyn yn parhau gan fod cymaint yn newid ar hyn o bryd.

5/ Canfyddiadau penodol gan ymatebwyr yn gynnar yn eu gyrfa

Rhoddyd ymatebion i'r arolwg gan bump o ymarferwyr y gellid eu hystyried yn rhai yn gynnar yn eu gyrfa. Roedd tri wedi bod yn ymarfer ers 2 flynedd neu lai (y cyfan yn astudio ar adeg yr arolwg), ac roedd dau lai na phum mlynedd i mewn i'w hymarfer cyflogedig a hunangyflogedig.

Roedd y cyfan wedi defnyddio'r pecyn offer nifer o weithiau ar gyfer Trafodaethau am Ansawdd, Cynllunio a Dylunio Prosiectau, Ystyried neu i helpu gyda Gwerthuso. Roeddent yn llai tebygol o fod wedi defnyddio'r offer yn allanol ond pan oeddent wedi gwneud hynny, roeddent wedi gwneud hynny gyda Chyfranogwyr yn y Prosiect yn unig.

Mae'r ymatebion yn awgrymu, i ymarferwyr yn gynnar yn eu gyrfa, bod yr offer yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth bwysig o'r hyn sy'n creu profiad o safon uchel i'r cyfranogwyr, yn ogystal â chynnig peirianwaith ar gyfer

ymgysylltu'n weithredol â chyfranogwyr ar gyfer cynllunio a dylunio sesiwn, ac ar gyfer gwerthuso.

Nododd ymarferwyr yn gynnar yn eu gyrfa:

Mae cynllunio ar gyfer gweithdai yn fwy trylwyr wrth ddefnyddio egwyddorion ansawdd i'n harwain ac o ran cael safbwyntiau gwahanol. [Mae hyn yn] helpu i siapio gweithdai yn well yn ôl anghenion y cyfranogwyr.

Rwy'n teimlo, trwy ddefnyddio'r egwyddorion ansawdd bod gennyf yn awr ddull mwy cyflawn o ddyfeisio fy ngweithdai. Rwy'n cynllunio'r gweithdy yn fwy gofalus. Trwy ystyried y gweithdy fel endid amlochrog, rwy'n sicrhau bod fy ngweithgaredd yn addas ar gyfer amrywiaeth o gyfranogwyr ac y bydd yn eu herio ac yn ymgysylltu â nhw. Rwyf wedi ystyried mwy ar gynhwysiant ac rwyf yn awr yn fwy ystyriol o'm holl ymarfer creadigol diolch i ddefnyddio'r taflenni gwaith egwyddorion.

Mae dealltwriaeth well o'r holl egwyddorion ac elfennau sy'n ofynnol ar gyfer gweithdai llwyddiannus wedi arwain at ddull mwy cyflawn o gynllunio, gan sicrhau bod yr holl egwyddorion yn cael eu hystyried yn y broses.

Rwy'n teimlo bod y cyfranogwyr yn rhan o'r gwaith dylunio erbyn hyn. Rwy'n gadael iddyn nhw arwain y gweithdai yn eu cyfeiriad eu hunain a bod ganddynt berchenogaeth ar yr hyn y maent yn ei greu.

I'r rhai a gyflwynwyd i'r offer trwy eu dysgu proffesiynol yn y brifysgol, maent yn cofnodi bod yr *Egwyddorion Ansawdd* wedi "dod yn rhan sylfaenol bwysig iawn o'n gwaith gradd."

Yng ngeiriau myfyriwr arall a ymatebodd, roedd y pecyn offer yn meithrin dull mwy cynhwysol wrth lunio dealltwriaeth o ansawdd:

Fe ddefnyddiais yr egwyddorion wrth gynllunio gweithdai cerddoriaeth ysgol gynradd. I mi, yn wahanol i bethau yn y gorffennol, nid oeddwn yn meddwl am un cynllun ar gyfer gweithdy yn unig a'r hyn yr oeddwn i'n bersonol yn ei feddwl fyddai'r ffordd orau ymlaen. Roeddwn yn gallu cymryd hyn ac yna ei drawsnewid yn rhywbeth gwell trwy asesu fy syniadau yn feirniadol; gan ystyried beth fyddai'n gwneud fy ngweithdy yn ddiddorol a chynhwysol.

Fe wnaeth yr ymatebwr hwn gloi trwy ddweud: "Credaf mai trwy ddefnyddio'r egwyddorion y daeth hyn yn bosibl mewn gwirionedd".

Nododd y pump o'r ymarferwyr yn gynnar yn eu gyrfa bod y pecyn offer wedi eu helpu i:

- Gydnabod lle mae ymarfer da yn bodoli a'i ddathlu
- Gasglu gwybodaeth ar gyfer gwerthuso, a
- Dynodi a datrys problemau posibl gyda phrosiect cyn iddynt danseilio'r ansawdd i'r cyfranogwyr.

Cytunodd pedwar o'r pump bod defnyddio'r pecyn offer wedi cynorthwyo ansawdd eu proses neu ymarfer.

Fe wnaeth yr egwyddorion yn bendant fy helpu i wella ansawdd yr hyn a brofodd y cyfranogwyr. Mae hyn yn wir oherwydd fy mod wedi eu defnyddio i feddwl yn ofalus am y swyddogaethau gwahanol fyddai gan arweinwyr y gweithdy a'r cyfranogwyr. Roeddwn yn sicrhau bod ein gweithgareddau yn cael eu llunio mewn camau gan ddefnyddio'r egwyddorion. Fe ystyriais swyddogaethau ein tîm gan ddefnyddio'r fframwaith fel ein bod yn hyblyg a byddwn yn cymryd gofal ychwanegol i gynnwys pawb.

6/ Gwelliannau yn ymwneud ag Ymgysylltiad Cymunedol

Rhestrodd deg o'r artistiaid llawrydd/sefydliadau a ymatebodd i'r arolwg 'Asiantaethau dysgu a datblygu cymunedol' ymhlith y partneriaid allanol y maent yn gweithio gyda nhw. Tynnwyd yr ymatebion ar gyfer y rhan hon o'r set ddata i archwilio ffyrdd y mae cael yr hyfforddiant gan ArtWorks Cymru a defnyddio'r pecyn offer wedi gwella ymarfer ac ymgysylltu â chymunedau yn benodol.

Mae saith o'r 10 ymatebwr sy'n gweithio gydag asiantaethau datblygu cymunedol yn eu gyrfa mewn ymarfer celfyddydol cyfranogol ers mwy na 10 mlynedd; mae'r tri sy'n weddill wedi bod yn gweithio ers mwy na dwy flynedd.

Roedd naw o'r deg ymatebwr profiadol wedi defnyddio'r offer ansawdd yn fewnol ar gyfer trafodaethau am ansawdd ac i werthuso, ac roedd y deg wedi defnyddio'r offer ar gyfer dysgu ystyriol. Roedd wyth hefyd wedi defnyddio'r offer yn fewnol ar gyfer cynllunio a dylunio prosiect.

O'r deg, roedd 60% wedi defnyddio'r offer yn allanol gyda Phartneriaid cyflawni prosiect a 30% yn benodol gyda Chomisiynwyr. Roedd pedwar (40%) wedi eu defnyddio gyda'u cyfranogwyr. [Mae'r ffigurau yma yn sylweddol uwch nag yn y set ddata lawn, lle mae'r canrannau'n 50%, 17% a 33% yn eu tro.]

Mae'r sylwadau gan y grŵp hwn o ymarferwyr yn aml yn cam-liwio natur gymhleth yn aml eu partneriaethau, gyda phrosiectau yn aml yn cynnwys rhanddeiliaid, partneriaid ac asiantaethau cyflawni niferus.

Wrth ateb y cwestiwn 'Beth sy'n wahanol (os o gwbl) yn eich cynllunio neu ymarfer yn awr o ganlyniad i weithredu'r dull ansawdd hwn?' dywedodd un ymatebwr:

Mae defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd gyda phartneriaid allanol a chomisiynwyr yn helpu i fapio prosiectau ac yn sicrhau bod popeth yn cael ei drafod. Mae'n helpu hefyd i weld y darlun ehangach o daith y prosiect. Rwy'n gweld ansawdd yn beth anodd ei drafod ond mae'r Egwyddorion Ansawdd yn rhoi fframwaith ac iaith i gynnal y drafodaeth honno.

Rwyf hefyd wedi eu defnyddio i greu ethos ymarfer gyda grŵp o ymarferwyr sy'n cyflawni prosiect ar raddfa fawr gyda'i gilydd. Fe wnaethom eu hystyried cyn i'r prosiect ddechrau ac yna defnyddio'r ethos yr ydym wedi ei greu i ystyried a gwerthuso ar y diwedd. Roedd hyn yn eithriadol o ddefnyddiol. Roedd yn golygu ein bod ni i gyd ar yr un dudalen ac yn deall sut yr oedd ansawdd yn edrych yn y prosiect yr oeddem ni i gyd yn ei gyflawni.

Dengys hyn mai un o fanteision yr offer yw hwyluso cynllunio a chyfathrebu ar y cyd. Yn yr un modd, nododd ymatebwr arall:

Mae llawer o'n partneriaid yn sefydliadau heb ddim i'w wneud â'r celfyddydau. Rwy'n meddwl bod yr Egwyddorion Ansawdd wedi eu helpu i ddeall yn well beth yr ydym yn ei wneud a beth allwn ni fod yn ei wneud. Mae hefyd yn cynnal cyd-destun lle gallwn feithrin ymddiriedaeth.

Cytunodd 9 allan o'r 10 bod defnyddio'r pecyn offer wedi helpu i siapio eu dulliau gwerthuso.

Mae'r Egwyddorion Ansawdd yn ddefnyddiol o ran gwirio / ystyried cynllunio a gwerthuso prosiect. Rwyf yn cael fy hun yn eu plygu i mewn i Stori am Newid ar ddechrau prosiect. Maent yn ffordd o gadw'r hyn sy'n bwysig mewn golwg.

Mae wedi rhoi ffordd wedi ei strwythuro o werthuso o ran ansawdd y gwaith. Yn y gorffennol efallai y byddem wedi trafod beth oedd wedi mynd yn dda a dim cystal yn unig - o ran y cyfranogwyr a'r prosiect ei hun.

Fe wnaethom ddefnyddio'r egwyddorion ansawdd nid yn unig i ddod o hyd i'r uchafbwyntiau a gwelliannau i brosiectau ond hefyd i brofi'r elfennau o ansawdd yn y gwaith ac i ble y dylai fynd nesaf. Roeddem yn gallu trafod y fantais o wneud y prosiect hwn gyda sefydliadau ieuenctid eraill yn y dyfodol a byddem yn gallu rhannu'r broses ansawdd a chanlyniad y prosiect gyda nhw yn glir.

Cytunodd 8 o'r 10 bod defnyddio'r pecyn offer wedi cynorthwyo ansawdd eu proses neu ymarfer

[Yr hyn sy'n wahanol o ganlyniad i weithredu'r dull ansawdd hwn yw] mwy o ymgysylltu â phartneriaid a thimau cyflawni ar gam cynllunio prosiect. [A] mwy o ystyried ar y gwaith gyda'r cyfranogwyr wrth iddo fynd yn ei flaen.

Roedd 6 o'r 10 yn cydnabod ei fod wedi gwella ansawdd yr hyn y mae'r cyfranogwyr y maent yn gweithio gyda nhw yn ei brofi (gyda'r pedwar arall yn ansicr).

A phan ofynnwyd 'a yw defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd wedi cynyddu'r nifer o wahanol leisiau sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni eich prosiectau?' atebodd hanner y segment hwn yn gadarnhaol. (Mae'r gyfran hon ychydig yn uwch nag yn y set ddata lawn, lle gwnaeth 8 allan o 18 ateb yn gadarnhaol). Y lleisiau rhanddeiliaid ychwanegol a gofnodir gan y segment hwn yw rhai partneriaid a'r rhai sy'n cymryd rhan.

[Yn awr mae gennym] lais cryfach gan y cyfranogwyr. Weithiau rydym yn cael ein comisiynu i gyflawni prosiectau lle mae cynlluniau wedi cael eu datblygu cyn i ni fod yn rhan ohonynt. Rydym yn awr yn fwy ymrwymedig i wneud ymdrech i geisio sicrhau bod gan y cyfranogwyr fwy o lais wrth

ddyfunio prosiect - hyd yn oed pan fyddwn yn ychwanegu hyn yn ôl-syllol. Gan gywiro diffyg cydbwysedd cychwynnol. Yn y gorffennol fe fyddem wedi darparu "prosiect da" a chynnwys cyfranogwyr yn y penderfyniadau wrth symud ymlaen.

Cytunodd 4 allan o'r 10 bod defnyddio'r pecyn offer wedi dyfnhau eu perthynas waith â'u partneriaid prosiect.

Mae cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu gyda'r rhai sy'n cymryd rhan a phartneriaid wedi bod yn ganolog i'r ffordd yr ydym yn gweithio yn awr ers nifer o flynyddoedd, ond, mae'r egwyddorion yn adnodd gwych i reoli disgwyliadau a chychwyn trafodaeth am werthoedd cyffredin.

Mae wedi ein helpu i arwain partneriaid prosiect at ddull sy'n rhoi mwy o bwyslais ar y cyfranogwyr a'n galluogi i newid cynlluniau er gwell. Mae cael yr adnoddau yn cynorthwyo trafodaeth ddymunol ac yn eu helpu i ddeall ein bod yn ymdrech i'w wneud y profiad gorau posibl i bawb.

Mae'n hawdd llithro i'w wneud yn yr un ffordd ag yr ydym wastad / fel arfer yn ei wneud, yn benodol wrth weithio gyda phartneriaid cyson. Mae'n ein cadw ar flaen ein traed.

Teimlai 6 o'r 10 bod defnyddio'r pecyn offer wedi cael effaith gweladwy a defnyddiol ar eu gwaith cyn belled (gyda'r pedwar arall yn cydnabod rhywfaint o effaith cynnar neu gychwynnol).

Mae naw o'r 10 wedi argymhell y pecyn offer i eraill.

Gyda'i gilydd mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod gwerth a manteision yr offer Egwyddorion Ansawdd wedi bod yn neilltuol o sylweddol mewn lleoliadau ymgysylltu cymunedol.

7/ Camau nesaf i ArtWorks Cymru

Ar sail y canfyddiadau yn yr adroddiad a'r sgysiau sy'n parhau gyda'r sector celfyddydau cyfranogol yng Nghymru, bydd ArtWorks Cymru yn gweithio tuag at y camau canlynol:

- Datblygu'r offer a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r rhai sy'n defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd a'r rhai sydd â diddordeb mewn dysgu rhagor. Mae hyn yn cynnwys: creu astudiaethau achos yn cynnwys sefydliadau sydd â phrofiad o ddefnyddio Egwyddorion Ansawdd; cynhyrchu cyflwyniad gweledol i ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd; a gwella'r map safle ar wefan ArtWorks Cymru i'w gwneud yn haws i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cyfarwyddyd y mae arnoch eu hangen.
- Hyrwyddo'r Egwyddorion Ansawdd ymhellach gyda phartneriaid ar draws Cymru, yn benodol gyda grwpiau, sefydliadau ac artistiaid sy'n newydd i gyflawni gweithgareddau celfyddydol cyfranogol.
- Parhau i ddwyn partneriaid at ei gilydd ar draws y sector i rannu'r gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau. Mae partneriaeth ArtWorks Cymru yn cael ei chydabod fel rhwydwaith werthfawr i'r aelodau: mae cyfarfodydd a dyddiau hyfforddi yn cynnig fforwm i sefydliadau ac artistiaid ddod at ei gilydd a thrafod datblygiadau'r sector, rhannu profiadau o ymarfer diweddar a chefnogi a datblygu eu gwaith.
- Defnyddio canfyddiadau'r adroddiad mewn trafodaethau gyda phartneriaid am y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi tystiolaeth werthfawr wrth gynllunio'r camau nesaf ar gyfer rhaglen ArtWorks Cymru, yn benodol ym maes hyfforddiant a datblygu proffesiynol parhaus i sefydliadau ac artistiaid ar ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd ac wrth ddatblygu ymarfer mewn lleoliadau cyfranogol.

Yr ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg hwn, y mae llawer o'u sylwadau wedi eu dyfynnu yn yr adroddiad hwn, yw:

Alan, Canolfan Mileniwm Cymru Amanda, ymarferwr llawrydd

Louise, Llenyddiaeth Cymru Beth, ymarferwr llawrydd/
darlithydd

David, Theatr Borough y Fenni Bethan, ymarferwr llawrydd

Joanne, Mess Up The Mess
Theatre Company Heidi, ymarferwr llawrydd/
darlithydd

Bryony, Arts Active Trust Heloise, ymarferwr llawrydd/
darlithydd

Rhian, Operasonic Ella, myfyriwr ymarferwr

Amanda, Impelo Megan, myfyriwr ymarferwr

Kate, Head4Arts

Gofynnodd tri ymatebwr arall am gael bod yn ddiennw.